Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
## Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**Canolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru**
**Heol y Coleg**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EP**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Canolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ganolfan o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella medrau llythrennedd personol hyfforddeion a'u gallu i gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destun addysgu

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ganolfan wedi rhoi nifer o systemau a strwythurau ar waith sydd wedi cael effaith gadarnhaol wrth godi safonau llythrennedd personol hyfforddeion. Mae hyfforddeion ar bob rhaglen yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ganolfan yn rhoi cymorth ac arweiniad ymarferol da i helpu hyfforddeion i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ac mae hyn wedi gwella arfer hyfforddeion ar draws yr holl raglenni.

Mae'r ganolfan wedi penodi tiwtoriaid arweiniol llythrennedd ac iaith ar gyfer rhaglenni cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Mae'r arweinwyr hyn yn datblygu dulliau cydlynus o wella medrau llythrennedd personol hyfforddeion ac o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o sut i addysgu iaith a llythrennedd. Mae mentrau diweddar yn cynnwys adnoddau electronig i ddangos enghreifftiau o arfer orau a chyflwyno portffolio 'UP', sy'n creu strwythur i hyfforddeion fyfyrio ar eu medrau llythrennedd ac addysgu personol a'u datblygu.

Ceir strwythurau cadarn i olrhain medrau llythrennedd hyfforddeion a nodi gwendidau yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iaith a llythrennedd ar lefel unigol ac ar lefel carfan gyfan.

Mae arweinwyr llythrennedd wedi cyflwyno gweithdrefnau manwl ar gyfer olrhain cynnydd hyfforddeion trwy'r archwiliad llythrennedd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i arweinwyr, tiwtoriaid a mentoriaid am fedrau llythrennedd hyfforddeion ac mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer cymorth yn y brifysgol ac mewn ysgolion fel ei gilydd. Mae'r arfer dda mewn olrhain yr arbrofwyd â hi ar y rhaglen TAR cynradd wedi cael ei hymestyn i'r holl raglenni erbyn hyn, ac mae'n cael effaith gadarnhaol wrth godi safonau hyfforddeion. Mae dadansoddi mwy ffocysedig a gyflwynwyd er Chwefror 2014 yn golygu y gall tiwtoriaid nodi'n well yr hyfforddeion unigol y mae angen mwy o gymorth arnynt. Dengys data'r ganolfan fod ymyriadau llythrennedd gorfodol targedig wedi gwella medrau llythrennedd y grŵp hwn o hyfforddeion yn sylweddol.

Mae'r rhaglen Gloywi Iaith yn helpu i wella Cymraeg llafar ac ysgrifenedig hyfforddeion. Mae'r archwiliad newydd o fedrau Cymraeg hyfforddeion, a

ddyfeisiwyd ar gyfer yr hyfforddeion hynny sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn rhoi dealltwriaeth well i'r hyfforddeion hyn a'u tiwtoriaid a'u mentoriaid o gryfderau a gwendidau penodol hyfforddeion.

Yn gyffredinol, mae aseiniadau hyfforddeion yn dangos medrau ysgrifennu academaidd cadarn mewn amrywiaeth briodol o gyd-destunau. Fodd bynnag, yn eu cynlluniau a'u harfarniadau gwersi, mae hyfforddeion yn gwneud camgymeriadau llythrennedd o bryd i'w gilydd.

Mae tiwtoriaid wedi cyflwyno system i fonitro ffeiliau cynllunio hyfforddeion i nodi pa hyfforddeion sydd angen mwy o gymorth i ddatblygu llythrennedd disgyblion, a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r craffu hwn yn dechrau llywio gwelliannau i raglenni yn effeithiol.

**Argymhelliad 2: Gwella medrau cynllunio a myfyrio hyfforddeion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ar draws pob rhaglen, mae dull hyfforddeion o gynllunio yn fwy cyson, ac mae ansawdd cynllunio gwersi wedi gwella. Mae gan lawer o hyfforddeion ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n gwneud cynllun gwers da. Maent yn fwy hyderus i drafod dulliau o addysgu a dysgu gyda'u tiwtoriaid a'u mentoriaid.

Bu ffocws cryf ar wella medrau cynllunio a myfyrio hyfforddeion dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ganolfan wedi cyflwyno ffurflenni cynllunio gwersi newydd sy'n annog hyfforddeion i ganolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyfforddeion ar draws pob rhaglen yn defnyddio'r ffurflenni hyn i gynllunio eu gwersi erbyn hyn. Mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o gynllunio hyfforddeion ac maent wedi cyfleu'r disgwyliadau hyn yn glir i fentoriaid mewn ysgolion. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hyfforddeion yn cael negeseuon cyson a chymorth da mewn perthynas â chynllunio gwersi.

Mae llawer o hyfforddeion yn datblygu'n dda fel ymarferwyr myfyriol. Ceir cyfleoedd addas i hyfforddeion ar bob rhaglen wneud aseiniadau sy'n gofyn iddynt gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destun sy'n cysylltu'n dda â'u profiad yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad i'r profiadau gwell hyn, erbyn diwedd eu hyfforddiant, mae arfarniadau gwersi a hunanarfarniadau wythnosol llawer o hyfforddeion yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd dysgu a chyflawniad disgyblion, yn ogystal ag ar eu cynnydd a'u gallu addysgu eu hunain. Mae'r ganolfan yn arbrofi â dull arloesol erbyn hyn ar gyfer datblygu meddwl myfyriol gyda rhai hyfforddeion. Y nod yw gwella medrau meddwl beirniadol hyfforddeion ymhellach a'u galluogi i roi mwy o sylw i elfennau penodol o ddysgu disgyblion. Nid yw tiwtoriaid a mentoriaid bob amser yn darparu adborth ysgrifenedig digon cywir yn ffeiliau hyfforddeion i gefnogi'r agwedd hon ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r ganolfan yn gweithio'n dda gyda'i mentoriaid i wella eu dealltwriaeth o sut i ddatblygu medrau myfyriol hyfforddeion.

**Argymhelliad 3: Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ganolfan wedi gwneud cynnydd da o ran gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r 'Cwricwlwm Cymreig' a'r iaith Gymraeg.

Mae'r ganolfan wedi darparu diwrnod hyfforddiant defnyddiol ar gyfer staff i wella'u dealltwriaeth o'r 'Cwricwlwm Cymreig'. Mae pob un o'r rhaglenni bellach yn cynnwys gofynion clir i hyfforddeion ystyried yr agwedd hon wrth iddynt gynllunio gwersi. Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn rhoi pwyslais priodol erbyn hyn ar yr agwedd hon yn ystod arsylwadau gwersi. Mae cyflwyno gwobr i gydnabod gwaith rhagorol yn y maes hwn wedi cyfrannu at gynyddu proffil 'Y Cwricwlwm Cymreig' hefyd. Effaith y newidiadau hyn yw bod y rhan fwyaf o hyfforddeion bellach yn cynllunio'n fwy effeithiol i gynnwys agweddau ar 'Y Cwricwlwm Cymreig' yn eu profiadau ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ganolfan wedi llunio arweiniad clir a defnyddiol i diwtoriaid prifysgol ac ysgolion partneriaeth ar gyfer defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol. Mae nodi enghreifftiau o arfer orau yn Y Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref o'r gwaith hwn ac yn dangos gwaith rhagweithiol y ganolfan i ddatblygu ei phartneriaeth gydag ysgolion.

Mae'r ganolfan wedi mireinio'i rhaglen ar gyfer yr hyfforddeion hynny nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg i ddarparu cymorth targedig a gwahaniaethol. Mae hyn yn galluogi hyfforddeion i ddatblygu eu medrau unigol yn fwy priodol ac yn sicrhau eu bod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r ganolfan wedi cryfhau ac egluro'i disgwyliadau o ddefnydd hyfforddeion o'r Gymraeg yn eu haddysgu. Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn canolbwyntio'n briodol ar ddefnydd hyfforddeion o'r Gymraeg yn ystod arsylwadau gwersi erbyn hyn. O ganlyniad, mae llawer o hyfforddeion yn gwneud cynnydd addas o ran eu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn fwy priodol yn eu gwersi.

Rhoddir hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol i hyfforddeion sy'n rhugl yn Gymraeg i wella eu meistrolaeth o'r iaith ac ehangu eu geirfa sy'n benodol i bwnc. Mae'r ganolfan yn awr yn nodi gwendidau penodol yng Nghymraeg hyfforddeion unigol ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda mentoriaid i ysgogi gwelliannau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion hyn yn darparu modelau iaith cynyddol gywir ar gyfer disgyblion.

**Argymhelliad 4: Rhoi gweithdrefnau asesu ar waith i sicrhau bod tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu safonau hyfforddeion yn gywir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers adeg yr arolygiad, mae'r ganolfan wedi gwneud cynnydd cadarn wrth wella'i gweithdrefnau asesu i sicrhau bod tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu safonau hyfforddeion yn gywir.

Mae'r ganolfan wedi gwneud diwygiadau priodol i'w meini prawf ar gyfer asesu aseiniadau ysgrifenedig hyfforddeion. Mae'r meini prawf diwygiedig bellach yn cynnwys gwahaniaethu clir rhwng gofynion lefel 6 a lefel 7. Mae'r ganolfan wedi darparu hyfforddiant cadarn i diwtoriaid ar sut i asesu aseiniadau, ac mae wedi cryfhau gweithdrefnau safoni. Mae pob un o'r tiwtoriaid wedi cymryd rhan mewn

gweithgareddau marcio mewn parau. Mae'r mentrau hyn wedi arwain at gysondeb a chywirdeb gwell wrth asesu aseiniadau ysgrifenedig rhwng tiwtoriaid. Mae'r ganolfan hefyd yn rhoi esboniadau clir o feini prawf asesu ac ystod ddefnyddiol o aseiniadau enghreifftiol o ansawdd gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynnig adborth gwerthfawr i hyfforddeion ar sut i wella eu haseiniadau, er na chaiff yr adborth hwn ei roi mewn pryd i hyfforddeion ystyried y cyngor hwn mewn aseiniadau dilynol bob amser. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r ganolfan wedi aildrefnu'r amserlen aseiniadau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cynnal gwiriadau priodol o ffeiliau hyfforddeion yn ystod profiadau ysgol. Mewn rhai ffeiliau, mae tiwtoriaid yn rhoi ystyriaethau defnyddiol i hyfforddeion o'u perfformiad mewn agweddau pwysig fel cynllunio gwersi, llythrennedd neu ansawdd y myfyrio. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a gynigir gan diwtoriaid yn arwynebol ac yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod y ffeil yn gyflawn. Mewn rhai achosion, mae sylwadau yn ffeiliau hyfforddeion yn rhy hael. I wella'r agwedd hon ar asesu, mae'r ganolfan wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddadansoddi adborth tiwtoriaid a mentoriaid i hyfforddeion yn systematig. O ganlyniad i'r dadansoddi hwn, mae arweinwyr y ganolfan wedi nodi bod angen gwella ffocws ac eglurder y targedau a osodir gan fentoriaid a thiwtoriaid i godi safonau hyfforddeion. Mae'r ganolfan wedi llunio cynlluniau gweithredu defnyddiol a gweithgareddau datblygu cysylltiedig ar gyfer tiwtoriaid a mentoriaid sy'n cefnogi'r maes hwn ar gyfer gwella yn dda.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ganolfan wedi mireinio'i meini prawf ar gyfer arfarnu addysgu hyfforddeion i ddarparu enghreifftiau clir o safonau. Mae tiwtoriaid wedi cymryd rhan mewn trafodaethau buddiol ynglŷn â sut i gymhwyso'r meini prawf hyn wrth arsylwi addysgu hyfforddeion. Mae mwyafrif o diwtoriaid wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddiol fel cynnal arsylwadau ar y cyd gyda thiwtoriaid eraill neu arfarnu addysgu mewn fideos i sicrhau cysondeb barnau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o diwtoriaid wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae'r ganolfan wedi cynnig hyfforddiant addas i fentoriaid i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyson o sut i farnu addysgu yn unol â'r Safonau Athro Cymwys. Mae tiwtoriaid yn cynnal arsylwadau defnyddiol ar y cyd o wersi gyda mentoriaid i wella cysondeb ymhellach. Yn ychwanegol, mae'r ganolfan bellach yn cynnig adborth buddiol i fentoriaid ar ansawdd yr hyfforddiant y maent yn ei ddarparu. Gyda'i gilydd, mae newidiadau i weithdrefnau asesu'r ganolfan wedi sicrhau gwelliannau i gywirdeb a dibynadwyedd barnau mentoriaid a thiwtoriaid ar ansawdd addysgu hyfforddeion.

**Argymhelliad 5: Gwella cysondeb yr hyfforddi ar draws pob rhaglen**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

At ei gilydd, mae'r ganolfan wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd a chysondeb yr hyfforddi ar draws y rhaglenni a gynigir gan y ganolfan.

Mae arweinwyr y ganolfan wedi datblygu strategaethau a gweithdrefnau sy'n rhoi darlun llawer mwy cywir o gysondeb y ddarpariaeth i'r ganolfan. Mae'r rhain yn cynnwys craffu trefnus ar ffeiliau ac aseiniadau hyfforddeion, casglu data a dadansoddi data yn well, a chasglu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd hyfforddiant y brifysgol. Mae'r prosesau hyn wedi galluogi'r ganolfan i wella arfer tiwtoriaid a

mentoriaid, ac yn galluogi arweinwyr y ganolfan i ddatblygu darpariaeth yn unol ag amcanion strategol y ganolfan.

Mae’r strategaethau a’r gweithdrefnau hefyd yn cynnwys gweledigaeth sy’n cael ei chyfleu yn glir o ddisgwyliadau uchel o bob un o’r staff a dyhead i gyflwyno athrawon o safon uchel yn y llu addysgu yng Nghymru a thu hwnt. Mae tiwtoriaid, mentoriaid a hyfforddeion yn deall y weledigaeth yn dda ac yn cefnogi’r dyhead.

Mae’r brifysgol a’r ganolfan wedi rhoi cwrs ymsefydlu o ansawdd da ar waith a system fentora effeithiol ar gyfer staff newydd. Mae staff newydd yn teimlo’n hyderus eu bod yn cael cymorth da i ddeall systemau’r brifysgol ac i ddatblygu agweddau allweddol ar eu rolau yn unol â disgwyliadau.

Mae uwch arweinwyr y ganolfan wedi sefydlu cylch clir o gyfarfodydd, sy’n galluogi staff o fewn ac ar draws rhaglenni i weithio fel tîm i ddeall y cryfderau cyffredin a’r meysydd i’w datblygu a rhannu arfer effeithiol. Mae’r ganolfan wedi cynyddu ei defnydd o fideo gynadledda, sy’n galluogi pob un o’r staff i ddefnyddio amser yn effeithlon a chymryd rhan mewn cyfarfodydd heb orfod teithio i safle arall. Mae’r ganolfan wedi datblygu’r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i diwtoriaid a hyfforddeion rannu gwybodaeth ac arfer yn effeithlon.

Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod â chynrychiolwyr hyfforddeion yn rheolaidd hefyd. Mae cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi pryderon hyfforddeion ac fe geir pwyntiau gweithredu clir. Eir i’r afael â’r rhain a gofynnir am safbwyntiau hyfforddeion yn y cyfarfod nesaf ynghylch p’un a gafwyd gwelliant.

Erbyn hyn, mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid cynradd yn addysgu a chefnogi hyfforddeion ar y rhaglenni cynradd i israddedigion ac ôl-raddedigion. Mae tiwtoriaid cynradd yn gweithio’n effeithiol i sicrhau darpariaeth gyfartal a disgwyliadau uchel ar draws y ddwy raglen.

Mae mentoriaid hyfforddeion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn adrodd am gysondeb gwell ar draws y rhaglenni ac yn sôn am welliant yn llythrennedd hyfforddeion fel enghraifft o ansawdd mwy cyson o hyfforddiant yn y brifysgol.

Mae atgyfnerthu’r wefan yn galluogi mentoriaid i anfon adroddiadau i’r ganolfan yn effeithlon. Yn ei dro, mae’n rhoi cyfle i diwtoriaid ddadansoddi cynnydd hyfforddeion ar-lein ac mae’n helpu tiwtoriaid i flaenoriaethu a thargedu eu cymorth i hyfforddeion a mentoriaid yn fwy effeithiol.

Mae’r disgwyliad y bydd pob tiwtor ar draws pob rhaglen yn mynychu darlithoedd arweiniol yn sicrhau cysondeb gwell mewn gweithdai dilynol a gwaith sydd wedi’i seilio ar y materion a’r themâu allweddol a drafodir yn y ddarlith.

Ceir rhaglen dadansoddi data erbyn hyn sy’n gysylltiedig â themâu a materion allweddol ar adegau allweddol yn y flwyddyn academaidd. O ganlyniad, mae gan staff y ganolfan ddealltwriaeth dda o faterion am raglenni generig ac unigol. Mae arweinwyr y ganolfan yn dechrau dadansoddi nodweddion allweddol priodoleddau, cymwysterau a chynnydd hyfforddeion hefyd i gynorthwyo hyfforddeion i gyflawni’r

safonau uchaf posibl y gallant.

Mae'r prosesau a roddwyd ar waith ar draws y ganolfan yn ddiweddar yn cynnig sylfaen gadarn i ddatblygu cysondeb gwell mewn hyfforddiant ar draws pob rhaglen. Maent yn cael effaith dda ar ddatblygu gwaith tîm effeithiol ar draws y rhaglenni hyfforddi athrawon ac maent wedi nodi meysydd penodol i'w gwella. Mae angen i'r ganolfan adeiladu ar y gwaith da hwn yn awr i barhau i ddatblygu cynllun a hyfforddiant rhaglenni i fodloni anghenion ysgolion yng Nghymru.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod tiwtoriaid yn diweddaru eu gwybodaeth am arfer gyfredol mewn ysgolion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Er Medi 2013, mae'r ganolfan wedi darparu cyfleoedd rheolaidd i diwtoriaid gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi sy'n gwella gwybodaeth a dealltwriaeth tiwtoriaid o flaenoriaethau cenedlaethol ac arfer gyfredol mewn ysgolion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio ac arfer tiwtoriaid.

Yn ychwanegol, mae pob tiwtor yn mynychu darlithoedd arweiniol a diwrnodau datblygu'r ganolfan lle cânt wybodaeth gyffredin am feysydd allweddol. Mae hyn yn galluogi tiwtoriaid i roi negeseuon cyson i hyfforddeion am flaenoriaethau ysgolion a mentrau cenedlaethol. Mae diwrnodau hyfforddi'r ganolfan yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygiadau cyfredol mewn addysg, gan gynnwys arfer dda mewn addysgu llythrennedd a rhifedd, arloesiadau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gwella ehangder yn Y Cwricwlwm Cymreig.

Mae sesiynau ar Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru a phrofion blynyddol wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth tiwtoriaid o waith ysgolion yn y maes hwn. Mae hyn wedi galluogi tiwtoriaid i baratoi hyfforddeion yn dda ar gyfer lleoliadau ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cysylltu eu cynllunio yn gywir ag elfennau perthnasol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae hyfforddiant diweddar i staff ar Y Cwricwlwm Cymreig wedi cryfhau gallu tiwtoriaid i arwain a chefnogi cynllunio a chyflwyno hyfforddeion ar gyfer yr elfen hon o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg yn ffeiliau cynllunio hyfforddeion.

Mae dull strategol y ganolfan o recriwtio ers yr arolygiad wedi bod yn llwyddiannus o ran denu llawer o staff sydd â phrofiad diweddar a pherthnasol o ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r ganolfan wedi datblygu ei phartneriaeth ag ysgolion ymhellach i amlygu materion cyfredol mewn addysg ar gyfer tiwtoriaid a hyfforddeion a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu harfer, er enghraifft mewn medrau myfyriol.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod arweinwyr canol yn monitro safonau, hyfforddiant a rhaglenni i sicrhau gwelliant yn brydlon ac effeithlon**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae pob arweinydd canol wedi dechrau monitro ac olrhain deilliannau aseiniadau hyfforddeion, profiadau ysgol, archwiliadau, sylwadau mentoriaid a gosod targedau yn agos i nodi cryfderau a gwendidau yn brydlon. Mae'r olrhain yn cyd-fynd â'u

cyfrifoldebau ac wedi'i gysylltu'n dda â blaenoriaethau cytûn. O ganlyniad, mae arweinwyr canol wedi llunio dadansoddiadau lefel uchel dros dro, sy'n rhoi trosolwg da o effaith strategaethau ar wella ansawdd dysgu ac addysgu hyfforddeion.

I ategu'r prosesau hyn, mae uwch arweinwyr y brifysgol wedi mireinio prosesau monitro ac olrhain mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ac maent yn dechrau casglu ystod eang o ddata yr ydynt yn ei ddefnyddio i nodi materion allweddol ar gyfer gwella. Maent wedi darparu buddsoddiad sylweddol i ailstrwythuro staffio'r ganolfan, a thrwy gystadleuaeth allanol, maent wedi llwyddo i recriwtio haen o arweinwyr canol cymwys ar lefel uwch ddarlithyddiaeth. Mae'r brifysgol wedi diwygio disgrifiadau swydd deiliaid swydd yn effeithiol i gynnwys rôl mewn sicrhau ansawdd yn unol â lefel y swydd, gan sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael eu dirprwyo.

Nid oes systemau gwerthuso ar gyfer staff y ganolfan wedi cael eu rhoi ar waith eto gan fod y brifysgol wrthi'n dyfeisio system newydd ar draws y brifysgol yn dilyn uno Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr y ganolfan wedi diwygio gweithdrefnau arsylwi cymheiriaid yn effeithiol i sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfle i weithio gyda'i gilydd, rhannu arfer effeithiol a nodi anghenion datblygiad proffesiynol trwy raglen arsylwi themâu ar draws y ganolfan. Mae arweinwyr y ganolfan wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella trwy ddadansoddi deilliannau'r broses arsylwi hon. I wella'r broses hon, mae angen i'r ganolfan ganolbwyntio ar y cynnydd a wna hyfforddeion yn eu sesiynau yn y brifysgol.

I sicrhau bod gan bob un o arweinwyr y ganolfan ddealltwriaeth ar y cyd o fedrau sy'n briodol i arwain a rheoli rhaglen broffesiynol, mae uwch arweinwyr y ganolfan wedi rhoi hyfforddiant arweinyddiaeth ar waith ar gyfer holl arweinwyr y ganolfan.

Mae gan y ganolfan gylch clir ar waith ar gyfer datblygu ac adolygu cynlluniau gweithredu. Mae uwch arweinwyr yn adolygu cynlluniau gweithredu ac yn darparu arweiniad ar adegau allweddol yn y flwyddyn ar gyfer arweinwyr canol ar sut i wella'r cynlluniau gweithredu a rhoi ffocws iddynt.

Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae arweinwyr canol wedi gwneud gwelliannau i'w rhaglenni trwy fynd i'r afael â materion a nodwyd trwy weithgareddau monitro. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau hyfforddeion ar draws rhaglenni, ac mewn gwaith sydd o fudd i'r ddwy ochr gydag ysgolion partneriaeth, gan gynnwys gweithdrefnau gwell i nodi a rhannu arfer effeithiol. Fodd bynnag, bydd angen i arweinwyr y ganolfan sicrhau bod data'n cael ei archwilio yn ddigon cadarn a chraff i nodi meysydd penodol i'w datblygu.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ganolfan barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.